COFNODION CYFARFOD Y CABINET A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGORA 1/2/3, SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PENYBONT AR OGWR DYDD MAWRTH, 23 GORFFENNAF 2019, AM 14:30

Presennol

Y Cynghorydd HJ David – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| CE Smith | PJ White | D Patel | RE Young |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

HM Williams

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Gill Lewis | Pennaeth Cyllid a Swyddog 151 Dros Dro |
| Kelly Watson | Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol a Swyddog Monitro |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |
| Susan Cooper | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Andrew Rees | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Nicola Echanis | Pennaeth Addysg a Chymorth Cynnar |
| Zak Shell | Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth |

383. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim.

384. DERBYN Y COFNODION

PENDERFYNWYD: Derbyn cofnodion cyfarfod y Cabinet ar 18 Mehefin 2019 fel cofnod gwir a manwl gywir.

385. NEWIDIADAU LLYWODRAETHU BWRDD CYMDEITHAS CYMOEDD I'R ARFORDIR (V2C)

Adroddodd y Prif Weithredwr ar gynnig gan Gymdeithas Tai Cymoedd i'r Arfordir (V2C) o gynnig newidiadau diwygiedig i strwythur llywodraethau ei Fwrdd.

Nododd bod aelodaeth y Bwrdd V2C wedi lleihau ers ei sefydlu, o 12 i 9 aelod, yn cynnwys traean cyfartal o denantiaid, Cynghorwyr ac Annibynwyr. Mae V2C wedi dilyn Deddf Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol (Cymru) 2018 i'w Bwrdd, yn lleihau swyddi enwebedig y Cyngor ar y Bwrdd o dri i un. Mae V2C yn ceisio symud eu Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu oddi wrth Fwrdd sy'n seiliedig ar awdurdod lleol a thenantiaid, a thuag at Fwrdd sy'n seiliedig ar sgiliau ac yn gofyn am ganiatâd y Cyngor ar gyfer y cynnig. Yn ôl y cynnig, ni fyddai swydd awdurdod lleol penodedig awtomatig ar y Bwrdd, ond os oes gan Gynghorwyr neu breswylwyr y sgiliau a'r profiad perthnasol, hoffai V2C e penodi ar sail y sgiliau hynny.

Hysbysodd y Prif Weithredwr y Cabinet y bydd V2C, fel rhan o'r cynnig i newid y strwythur llywodraethu, yn cyflwyno cyflwyniad blynyddol i'r cyngor sy'n nodi eu gwaith; yn cymryd rhan mewn trafodaeth flynyddol gyda'r broses Graffu ac yn mynychu cyfarfodydd strategol chwarterol gyda'r Cyngor.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Lesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol bod cynnig V2C yn gyson â dull nifer o Gymdeithasau Tai Cymru o ran mabwysiadu set o reolau model

Cartrefi Cymunedol Cymru. Dywedodd gall yr ymrwymiadau a wnaed i'r Cyngor i newid y Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu i adrodd yn flynyddol i'r Cyngor ac i'r broses Craffu fynd i'r afael â phryderon Aelodau a gall arwain at fwy o atebolrwydd. Gobeithiodd yr Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio y bydd y Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu diwygiedig yn mynd i'r afael â phryderon tenantiaid a gwella statws V2C. Cafodd yr Arweinydd ei annog gan ymrwymiadau V2C i adrodd yn flynyddol i'r Cyngor a'r broses Craffu ac i gyfarfod ag uwch reolwyr ac Aelod y Cabinet.

Hysbysodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio'r Cabinet fod y Cyngor wedi rhoi caniatâd ysgrifenedig i'r cynnig, ni fyddai'n cael ei ystyried yn rhesymol i'w ddal yn ôl, oherwydd gall Llywodraeth Cymru orfodi'r Cyngor i roi caniatâd.

PENDERFYNWYD: Y Cabinet:

1) Ystyried a pheidio gwrthwynebu'r cynnig gan V2C i symud at aelodaeth sy'n seiliedig ar sgiliau.

2) Ar sail (1) uchod, dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr i roi caniatâd ysgrifenedig ac i ymrwymo i unrhyw drefniadau angenrheidiol eraill gyda V2C i gefnogi’r broses o fabwysiadu Bwrdd sy'n seiliedig ar sgiliau.

386. PARC RHANBARTHOL Y CYMOEDD

Cyflwynodd y Pennaeth Gweithrediadau - Gwasanaethau Cymunedol ddiweddariad ar y gwaith i ddatblygu Parc Rhanbarthol y Cymoedd (VRP) a gofynnodd am ganiatâd i dderbyn gwahoddiad gan Lywodraeth Cymru i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (BCBC) i gynnal tîm y rhaglen a threfnu a dechrau cytundebau ariannol a chyfreithiol perthnasol gyda Llywodraeth Cymru a'r Awdurdodau Lleol sy'n ffurfio Parc Rhanbarthol y Cymoedd. Nododd y bydd y Cyngor yn gweithio gyda sefydliadau cyhoeddus, preifat a thrydydd sector sy ' n gysylltiedig ar draws y 10 ardal awdurdod lleol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ynghyd ag Abertawe, Castell-nedd Port Talbot ac awdurdodau posibl eraill yn ddiweddarach i ddatblygu a gweithredu cam nesaf Parc Rhanbarthol y Cymoedd fel y nodwyd ym Mhrosbectws Parc Rhanbarthol y Cymoedd.

Adroddodd bod Parc Rhanbarthol y Cymoedd wedi ei ddatblygu drwy Weithlu Gweinidogol Llywodraeth Cymru mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol y Cymoedd, y nod yw gwneud y mwyaf o bosibiliadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol nodweddion natur, diwylliant a threftadaeth y cymoedd. Dywedodd bod Llywodraeth Cymru yn chwilio am sefydliad gynnal yn unol â pholisïau a gweithdrefnau cynnal, o fis Awst 2019 i fis Mawrth 2021. Bydd gweithredu VRP yn seiliedig ar ddull bartneriaeth ac yn cael ei oruchwylio gan Fwrdd o Arweinwyr yr awdurdodau partner yn seiliedig ar ddull gweithio rhanbarthol a ddatblygwyd drwy Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Bydd grŵp gweithredol, a elwir yn fforwm VRP, yn gweithredu o dan lefel y Bwrdd yn cynnwys swyddogion o bartneriaid VRP a rhanddeiliaid allweddol eraill i oruchwylio elfennau gweithredol y VRP. Bydd y Cyngor yn trefnu a dechrau cytundeb ariannol gyda Llywodraeth Cymru.

Dywedodd y bydd 4 swydd, yn ogystal â swydd arweinydd Strategol a Gweithredol VRP a fydd yn aros fel cyflogai Llywodraeth Cymru, ond yn cael ei gynnal gan y Cyngor, yn cael eu hysbysu a'u cynnig ar sail secondiad yn unig. Dywedodd bod Llywodraeth Cymru wedi nodi bydd VRP ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar ddatblygu strwythurau a phartneriaeth yn gweithio gyda'r bwriad o fod yn ymrwymiad hir dymor. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cynnig bod tîm Gweithlu'r Cymoedd yn ymgymryd â diwygio'r cynllun VRP, gyda'r cynllun diwygiedig yn cael ei gyflwyno ar gyfer ei gymeradwyo i'w gynnwys yn fersiwn diwygiedig cynllun y gweithlu i'w gyhoeddi ym mis

Tachwedd 2019. Golygai hyn bod angen i'r cynllun newydd gael ei ddrafftio erbyn dechrau mis Hydref.

Dywedodd yr Arweinydd wrth gefnogi'r cynnig bod hwn yn arwydd o hyder Llywodraeth Cymru yn y Cyngor.

PENDERFYNWYD: Y Cabinet:

1) Nodi'r cynnydd hyd yn hyn yn natblygiad y VRP;
2) Derbyn y gwahoddiad i gynnal adnodd tîm darparu VRP;
3) Wedi dirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Gweithrediadau, mewn ymgynghoriad â Swyddog Adran 151 a Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, i drefnu a dechrau cytundebau cyllid a chyfreithiol addas er mwyn cyflawni ei rôl a chynnal y tîm darparu VRP.

387. PROSIECT GWRES DŴR PWLL GLO CAERAU

Adroddodd y Pennaeth Gweithrediadau - Gwasanaethau Cymunedol bod y Cyngor wedi ei dderbyn fel arddangosydd ar gyfer y Rhaglen Gwres Systemau Clyfar (SSH) ym mis Hydref 2014, gyda'r prosiect Gwres Dŵr Pwll Glo Caerau wedi ei gynnig fel un o brosiectau arddangos y rhaglen. Dywedodd bod y prosiect yn hynod o arloesol ac yn cynnig echdynnu gwres o ddŵr o fewn yr hen weithfeydd glo sydd wedi gorlifo i gynnig adnodd ar gyfer eiddo o fewn Caerau. Bydd gwres o ddŵr y pwll glo yn cael ei echdynnu a'i drosglwyddo i gylched ddŵr glân. Bydd y dŵr hwn yn cael ei gario drwy rwydwaith o bibelli i ganolfannau egni lleol lle bydd y tymheredd yn cael ei godi i'r tymheredd gofynnol gan bympiau gwres o'r ddaear ac yna yn cael ei gylchredeg i dai'r preswylwyr.

Dywedodd bod cais llwyddiannus wedi ei wneud i WEFO am gyllid grant, gyda chynnig grant ffurfiol o £6,498,943 yn cael ei wneud. Fodd bynnag, yn dilyn canfyddiadau gwaith holiadur a newidiadau strwythurol o fewn y Cyngor, roedd angen cyflwyno cynnig diwygiedig i WEFO ym mis Gorffennaf 2019, yn amodol ar gymeradwyaeth Swyddog Adran 151. Bydd WEFO yn mynd i'r afael ag asesiad y cynnig diwygiedig ac os yn gymeradwy, yn cyhoeddi llythyr cyllid diwygiedig. Dywedodd os ystyrir unrhyw un o'r newidiadau arfaethedig neu delerau ac amodau diwygiedig yn annerbyniol, bydd swyddogion yn ystyried goblygiadau a'r risg sy'n gysylltiedig ac uwchgyfeirio yn ôl yr angen. Gofynnir am gymeradwyaeth gyfreithiol ac ariannol hefyd. Bydd derbyn y diwygiadau uchod a'r cynnig cyllid diwygiedig yn sicrhau dealltwriaeth gyffredin o'r prosiect yn seiliedig ar wybodaeth bresennol rhwng Cyngor, WEFO a rhanddeiliaid allweddol. Amlinellodd dyddiadau'r penderfyniadau ynghyd â'r dyddiadau maent yn eu disgwyl iddynt ddigwydd, ynghyd ag allbynnau a chanlyniadau'r prosiect arfaethedig.

Hysbysodd Pennaeth Gweithrediadau - Gwasanaethau Cymunedol y Cabinet bod y prosiect yn cael ei oruchwylio'n fewnol gan Fwrdd Llywodraethu Mewnol Prosiect, wedi ei gefnogi fan Grŵp Rhanddeiliaid allanol. Amlinellodd broffil cyllid gwreiddiol y prosiect, ynghyd â'r arian cyfatebol ar gyfer y proffil diwygiedig a gynigwyd, a fydd yn cynyddu'r cynnig ariannol o £6,498,943 i £7,287,000.

Cymeradwyodd yr Aelod Cabinet dros Gymunedau yn cynnig a oedd yn rhan annatod o'r Strategaeth Ynni Ardal Leol a Chynllun Ynni Clyfar ac yn brosiect esiampl yng Nghymru. Cyfeiriodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar ar yr angen i sicrhau bod nifer o gartrefi yn cymryd rhan a bod yno ymgysylltiad cymunedol. Cadarnhaodd y Pennaeth Gweithrediadau - Gwasanaethau Cymunedol y bydd adnodd dynodedig ar gyfer ymgysylltiad cymunedol a bydd y prosiect yn cael ei ariannu'n rhannol gan y nifer o gartrefi sy'n cymryd rhan. Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet dros Gymunedau y bydd cyfarfodydd cyhoeddus yn cael eu cynnal yn Neuadd y

Dref Maesteg. Roedd yr Arweinydd yn calonogi wrth weld y gwaith sy'n cael ei wneud mewn ysgolion cynradd er mwyn bod y genhedlaeth nesaf yn profi buddiannau gwres cynaliadwy a bod defnydd newydd wedi ei ddarganfod i hen byllau glo.

PENDERFYNWYD: Y Cabinet:

1) Nodi'r cynnydd hyd yn hyn i Brosiect Gwres Dŵr Pwll Glo Caerau;

2) Wedi dirprwyo awdurdod i Swyddog Adran 151, yn amodol ar gymeradwyaeth Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, i dderbyn cynnig cyllid diwygiedig gan WEFO; a

3) Wedi dirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Gweithrediadau, mewn ymgynghoriad â Swyddog Adran 151 a Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, i drefnu a dechrau cytundebau cyllid a chyfreithiol yn ofynnol o achos derbyn y cynnig cyllid diwygiedig gan WEFO.

388. POLISI TROSGLWYDDO ASEDAU CYMUNEDOL

Gofynnodd y Pennaeth Gweithrediadau - Gwasanaethau Cymunedol am ganiatâd i weithredu argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Trosglwyddo Asedau Cymunedol (CAT) sydd wedi eu dylunio i sicrhau gall trosglwyddiadau asedau Blaenoriaeth 1 CAR eu symud ymlaen yn fwy effeithlon ac effeithiol a hefyd i gymeradwyo’r newidiadau cysylltiedig i'r polisi Trosglwyddo Asedau Cymunedol; a'r rhestr o Asedau Blaenoriaeth 1 CAT sydd ar fael ar gyfer prydles hir dymor neu gytundeb rheoli tymor byr.

Hysbysodd y Pennaeth Gweithrediadau - Gwasanaethau Cymunedol y Cabinet bod trosglwyddo asedau cymunedol yn draddodiadol wedi eu gwneud yn unol â Chynllun Rheoli Asedau 2021: Roedd Dogfen Gyfarwyddyd Trosglwyddo Asedau Cymunedol a 3 blaenoriaeth wedi'u pennu. Cyhoeddodd y Cyngor yn 2015, ganllaw wedi ei ddiweddaru ar Drosglwyddo Asedau Cymunedol, yn seiliedig ar y Canllaw Arferion Gorau wedi'i gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru, sy'n sefydlu rolau a chyfrifoldebau clir ar gyfer proses pedwar cam. Mae gan Grŵp Llywio Trosglwyddiadau Asedau Cymunedol gyfrifoldeb ar gyfer cymeradwyo datganiadau o ddiddordebau, achosion busnes, cymorth a chyllid drwy sicrhau bod unrhyw drosglwyddo ased cymunedol arfaethedig yn bodloni blaenoriaethau strategol, gofynion gweithredol a chyfeiriad dyfodol y Cyngor. Mae cymeradwyo i gael gwared ag asedau'r Cyngor, gan gynnwys trosglwyddiadau asedau cymunedol wedi ei ddirprwyo i'r Rheolwr Buddsoddi a Rheoli Asedau Strategol, gyda'r Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau yn ymgymryd â chymeradwyo materion mwy cymhleth a chynhennus, neu maent yn cael eu hadrodd i'r Cabinet i'w cymeradwyo. Hyd yn hyn, dyrannwyd cyllid i dri phrosiect o Gronfa'r CAT.

Adroddodd y Pennaeth Gweithrediadau - Gwasanaethau Cymunedol bod Grŵp Gorchwyl a Gorffen CAT sydd wedi ei sefydlu wedi ystyried dulliau sydd wedi eu mabwysiadu gan awdurdodau lleol eraill i drosglwyddo cymunedol, yn benodol y dulliau Cynghorau Sir Gâr a Chastell-nedd Port Talbot. Argymhellodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen bod y flaenoriaeth o asedau ar gyfer trosglwyddo ased cymunedol yn cael ei fireinio fel bod arbedion o dan y MTFS yn cael eu blaenoriaethu'n gywir. Mae newidiadau hefyd wedi eu hargymell i'r Polisi trosglwyddo ased Cymunedol i ystyried y newidiadau canlynol y mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn eu hargymell:

- Blaenoriaethau Ased CAT diwygiedig.
- Mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar risg ar gyfer asesu asedau a grwpiau cymunedol;
- Cyflwyno "llwybr cyflym" ceisiadau CAT;

- Mwy o bwyslais ar Asesiad Diagnostig Busnes yn cael ei neud ar bob grŵp cymunedol;
- Llai o ofyniad ar gyfer cynlluniau busnes manwl fel gofyniad gorfodol ar gyfer grwpiau cymunedol ac asedau a ystyrir yn addas ar gyfer "llwybr cyflym".

Bu i'r Pennaeth Gweithrediadau - Gwasanaethau Cymunedol grynhoi argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen.

- Dylai rhestr o Asedau sydd ar gael ar gyfer trosglwyddo ased cymunedol gael ei gynnal a'i adolygu a'i ddiweddaru'n rheolaidd;
- Dylai data ased (cydymffurfiaeth, arolygu cyflwr a chostau gweithredu) gael eu cyhoeddi i'r grwpiau cymunedol mor fuan â phosibl;
- Dylai modelau o Benawdau Telerau a thempled o Brydlesi ar gyfer grwpiau ased penodol eu defnyddio pryd bynnag fo'n bosibl gyda dull mabwysiedig o "Cymerwch o neu beidio";
- Dylai cyflwyno rhagamcanion incwm a gwariant am gyfnod o 5 mlynedd o leiaf fod yn ddigonol ar gyfer y rhan fwyaf o drosglwyddiadau asedau cymunedol ond dylid gofyn am gynlluniau busnes manwl ar gyfer prosiectau cymhleth o hyd;
- Dylai dull seiliedig ar risg ei fabwysiadu ar gyfer yr Asesiad Diagnostig Busnes sy'n cael eu gwneud ar grwpiau gymunedau a'r asedau sy'n cael eu trosglwyddo;
- Dylai fod ceisiadau T&CCau a grwpiau cymunedol sefydledig yn cael eu rhoi ar lwybr cyflym yn enwedig pan fo'r ased sy'n cael ei drosglwyddo mewn amod cydymffurfio. Bydd y dull sy'n seiliedig ar risg yn galluogi matrics risg i'w gael ei gynhyrchu a nodi addasrwydd ar gyfer llwybr cyflym.
- Bydd y dull sy'n seiliedig ar risg hefyd yn sicrhau ni fydd disgwyl i'r rhan helaeth o grwpiau cymunedol gynhyrchu achos busnes manwl llawn.
- Mae angen gwerthuso adnoddau staff sydd eu hangen i symud ymlaen gyda throsglwyddiadau asedau cymunedol fel bod terfynau amser cytunedig yn cael eu bodloni a dull "tîm" yn cael e fabwysiadu.

Wrth gymeradwyo'r cynigion, dywedodd yr Aelod Cabinet dros Gymunedau mai'r catalydd ar gyfer newidiadau i'r broses yw bod gofynion presennol y Cyngor yn rhy anhyblyg a bod angen dull llwybr cyflym newydd er mwyn hwyluso mathau penodol o drosglwyddiadau. Dywedodd bod y trosglwyddiad diweddar o Gaeau Chwarae Bryncethin i Fryncethin RFC ar gyfer y datblygiad o ganolfan gymunedol wedi cymryd peth amser i gael ei wireddu. Roedd yn credu bod y cynnig yn cynnwys diogelwch integredig i'r awdurdod ac i'r sefydliad a oedd yn ceisio'r trosglwyddiad a bod cytundebau llywodraethu da wedi'u gosod. Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol a Chymorth Cynnar ei fod wedi mynychu agoriad diweddar y Ganolfan Gymunedol ym Mryncethin, ac roedd yr aelodau yn ddiolchgar iawn o ran y Cyngor yn y broses drosglwyddo.

Roedd yr Arweinydd yn falch o weld argymhellion y broses Craffu a Throsolwg yn cael eu hadlewyrchu yn y cynigion a'r dull llwybr cyflym ar gyfer partneriaid dibynadwy.

Gofynnodd yr Aelod Cabinet dros Lesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol a fyddai'r swyddogion yn ystyried dull ar gyfer trosglwyddo ased o flaenoriaeth 2 neu 3. Dywedodd y Pennaeth Gweithrediadau - Gwasanaethau Cymunedol bydd swyddogion yn ystyried dull felly ond bydd pryderon ynghylch clymu amser ac adnoddau swyddog, yn enwedig os fydd y mater yn gymhleth ac ond ychydig o adenillion i'r Cyngor.

<u>PENDERFYNWYD:</u> Y Cabinet:

1) Cymeradwyo argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen CAT;
2) Cymeradwyo'r ddogfen Polisi Trosglwyddo Asedau Cymunedol diwygiedig;

3) Cymeradwyo'r rhestr o Asedau Blaenoriaeth 1 CAT sydd ar gael i drosglwyddo o dan brydles hir dymor, cytundeb rheoli tymor byr neu drwydded.

389. YMGYRCH MARW I WEITHIO

Gofynnodd y Prif Weithredwr am ganiatâd y Cyngor i arwyddo'r Siarter Marw i Weithio TUC.

Dywedodd bod yr ymgyrch Marw i Weithio eisiau gweld salwch angheuol wedi ei gydnabod fel "nodwedd warchodedig" fel bod cyflogai sydd â salwch angheuol yn cael hawl i 'gyfnod gwarchodedig' lle nad oes modd iddynt gael eu gwrthod ar sail eu cyflwr. Mae'r TUC yn annog cyflogwyr i ymrwymo i'r ymgyrch hwn drwy arwyddo Siarter Marw i Weithio a chytuno i beidio â gwrthod cyflogai sydd â diagnosis o gyflwr angheuol. Dywedodd wrth y Cabinet bod cyflogai'r Cyngor sydd ag salwch angheuol yn cael eu trin ag urddas a pharch ac mae eu dymuniadau unigol yn hollbwysig. Amlinellodd yr ymrwymiadau y bydd y Cyngor yn cytuno â nhw, er mwyn bodloni gofynion y siarter.

Nododd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar pwysigrwydd staff y Cyngor yn arwyddo'r siarter a fydd yn tawelu meddwl y staff.

PENDERFYNWYD: Cytunodd y Cabinet i gofrestru ar gyfer y Siarter Marw i Weithio.

390. MONITRO CYLLIDEB 2019-20 - RHAGOLWG REFENIW CHWARTER 1

Adroddodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro ar ddiweddariad ar sefyllfa ariannol y Cyngor fel ar 30 Mehefin 2019 a hawl i drosglwyddo £100,000 sydd angen cymeradwyaeth y Cyngor, yn unol â Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor.

Adroddodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro hefyd ar 20 Chwefror 2019, cymeradwyodd y Cyngor gyllideb refeniw net o £270.809 miliwn ar gyfer 2019-20, ynghyd â rhaglen cyfalaf ar gyfer y flwyddyn o £36.1576 miliwn. Mae'r Cyngor hefyd wedi cymeradwy Strategaeth Cyfalaf newydd, sy'n dangos bod yr awdurdod yn gwneud penderfyniadau buddsoddi a gwariant cyfalaf yn unol ag amcanion gwasanaeth ac yn ystyried stiwardiaeth, gwerth am arian, pwyll, cynaliadwyedd a fforddiadwyedd. Eglurodd mai safle'r prosiect ar 30 Mehefin 2019 oedd gorwariant net o £264,000, gan gynnwys gorwariant net o £763,000 ar gyfarwyddiaeth ac is wariant net o £499,000 ar gyllidebau corfforaethol. Ers cymeradwyo'r MTFS ym mis Chwefror, bu i Lywodraeth Cymru wneud grant ychwanegol ar gael i awdurdodau lleol yn 2019-20 i fodloni cost gynyddol pensiynau athrawon a swyddogion y gwasanaeth tân, ynghyd â £343,701 tuag at gynnydd yn nhâl athrawon. Dywedodd mai cyfanswm y cyllid a ryddhawyd o'r dyraniad hwn yw £2.622 miliwn, a gynigiodd y Cabinet a fyddai'n cael ei ddefnyddio i ymgymryd â gwaith cyfalaf fel rhan o 'Gronfa Buddsoddi yng Nghymunedau'.

Tynnodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro sylw at hawliau trosglwyddo arian y brif gyllideb a'r addasiadau technegol a wnaed rhwng cyllidebau. Eglurodd mai o ystyried y gostyngiadau ar raddfa fawr ar gyllidebau ar draws y Cyngor ym mlynyddoedd diweddar a'r pwysau tâl a phris sylweddol a roddir ar y cyllidebau hyn a'r cynnydd anhysbys yn nhâl athrawon o fis Medi 2019, roedd risg na fyddai digon o gyllid ar gael yn y cyllidebau hyn i fodloni unrhyw gynnydd chwyddiant pris mawr annisgwyl. Nododd hefyd bod y gyllideb net ar gyfer y flwyddyn ariannol wedi'i osod gan ystyried gofyniad gostyngiad yn y gyllideb o £7.621M. Adnabuwyd hefyd bod y MTFS ar gyfer 2019-20 hyd at 2022-23 yn adnabod yr angen i ddatblygu cynigion lleihau cyllideb gylchol, yn seiliedig ar y sefyllfa fwyaf tebygol o £35.2M.

Adroddodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro ar fonitro cynigion lleihau cyllidebau, lle nad oedd £2.342M o gynigion lleihau cyllidebau yn 2018-19 heb eu bodloni'n llawn, gyda balans gweddilliol o £1.519M i'w fodloni. O'r gostyngiadau gweddilliol, mae £1.795M yn debygol o gael ei gyflawni yn 2019-20, gan adael £547,000 heb ei fodloni. Cafodd cynigion lleihau cyllidebau o £7.621M yn 2019-20 eu cymeradwyo, mae diffyg ar y targed arbed o £1.433M ar hyn o bryd. Cyflwynodd grynodeb o'r sefyllfa ariannol fel ar 30 Mehefin 2019 ar gyfer pob prif faes pwnc, yn pwysleisio'r amrywiaethau mwyaf sylweddol.

Dywedodd yr Arweinydd bydd y Cyngor yn wynebu llawer iawn o ansicrwydd o ran gallu gosod cyllideb, gan efallai ni fydd y Cyngor yn gwybod beth fydd y gyllideb nes mis Mawrth 2020, ar ôl i'r DU a Llywodraeth Cymru osod eu cyllidebau nhw.

PENDERFYNWYD: Y Cabinet:

- Nodi sefyllfa refeniw rhagamcanol ar gyfer 2019-20;
- Awgrymwyd bod y Cyngor yn cymeradwyo hawl trosglwyddo dros £100,000 fel yr amlinellwyd ym mharagraff 4.1.4 yr adroddiad.

391. DIWEDDARIAD RHAGLEN GYFALAF - CHWARTER 1 2019 - 20

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro adroddiad mewn cydymffurfiad â gofyniad Cod Cyllid Cyfalaf Darbodus 2018 y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth, darparu diweddariad ar y Rhaglen Gyfalaf o 1 Ebrill hyd at 30 Mehefin 2019; cael caniatâd i adrodd i'r Cyngor i gymeradwyo rhaglen gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2019-20 hyd at 2028-29 ac i nodi'r Dangosyddion Darbodus ac Eraill arfaethedig ar gyfer 2019-20.

Adroddodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro bod y Cyngor ar 20 Chwefror 2018 wedi cymeradwyo rhaglen gyfalaf yn ymdrin â'r cyfnod rhwng 2019-20 hyd at 2028-29 fel rhan o'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig. Ers hynny, mae cynlluniau sydd heb eu cyflawni yn 2018-19 a chynlluniau ychwanegol sy'n gofyn cymeradwyaeth o ganlyniad i gronfa ychwanegol o gyllid. Mae monitro gwariant cyfalaf yn flaenorol wedi'i gynnwys yn yr Adroddiadau Monitro Perfformiad Ariannol yn Chwarterol i'r Cabinet ac roedd monitro Dangosyddion Darbodus wedi'i gynnwys yn yr Adroddiadau Monitro Rheolaeth Trysorlys Chwarterol i'r Cabinet. Gyda datblygiad y Strategaeth Gyfalaf 2019-20, roedd y Rhaglen Gyfalaf a'r Strategaeth Gyfalaf a'r Dangosyddion Darbodus wedi'u hymgorffori yn un adroddiad.

Adroddodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro ar fonitro'r rhaglen gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2019-20 a oedd yn cyfansymio i £54.471M. Caiff £36.665M o'r cyllid hwnnw ei fodloni yn adnoddau'r Cyngor, gyda'r £17.806M sy'n weddill yn dod gan adnoddau allanol. Darparodd fanylion o'r cynlluniau unigol yn y rhaglen gyfalaf, a oedd yn dangos y gyllideb sydd ar gael o'i gymharu â'r gwariant disgwyliedig. Bydd un cynllun, sef gwelliannau i gyffordd Heol Mostyn, y Pîl, yn mynd i 2020-21 a bydd hefyd ail-broffilio Neuadd y Dref Maesteg. Yn ogystal, roedd cynlluniau newydd wedi'u hariannu'n allanol wedi'u hymgorffori i'r rhaglen gyfalaf, sef, Darpariaeth Gofal Plant Cyfrwng Cymraeg; Grant Cynhaliaeth Ysgolion a Grant TGCh; Grant Trafnidiaeth a Grant Adnewyddu Priffyrdd ac Amlosgfa Llangrallo. Rhoddodd fanylion y cynlluniau newydd a ariennir gan y Cyngor i'w cynnwys yn y rhaglen gyfalaf, ers cymeradwyo'r rhaglen ym mis Chwefror, sef, Canolfan Ddata; Cyffordd Heol Mostyn, y Pîl; Neuadd Bytholrwydd a Buddsoddi yng Nghymunedau. Nododd bod nifer o gynlluniau yn y Rhaglen Gyfalaf yn disgwyl cadarnhad o gyllid allanol ac unwaith y bydd hwnnw'n hysbys, gallai arwain at rai cynlluniau yn cael eu hail-broffilio.

Adroddodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro bod y Cyngor wedi cymeradwyo ym mis Chwefror 2019 y Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2019-20, a oedd yn cynnwys y Dangosyddion Darbodus, ynghyd â rhai dangosyddion lleol. Nododd mai bwriad y strategaeth gyfalaf yw rhoi trosolwg o sut mae strategaeth gyfalaf, cyllido cyfalaf a gweithgareddau rheoli trysorlys yn cyfrannu at ddarparu gwasanaethau ynghyd â throsolwg o sut caiff y risgiau cysylltiedig eu rheoli a goblygiadau cynaliadwyedd y dyfodol. I'r perwyl hwn, cafodd nifer o ddangosyddion darbodus eu cynnwys a'u cymeradwyo gan y Cyngor. Mae gofyn i'r Prif Swyddog Cyllid sefydlu gweithdrefnau i fonitro perfformiad yn erbyn yr holl ddangosyddion darbodus y dyfodol a'r gofyniad a nodir.

Yn ogystal, adroddodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro ar fonitro'r Strategaeth Gyfalaf sy'n gofyn monitro buddsoddiadau nad ydynt yn rhai rheoli trysorlys ac atebolrwydd hirdymor arall.

Cymeradwyodd yr Arweinydd y cynigion yn y rhaglen gyfalaf ac roedd yn falch o weld Amlosgfa Llangrallo yn cael buddsoddiad a oedd wedi'i gymeradwyo gan y Pwyllgor ar y Cyd.

PENDERFYNWYD: Y Cabinet :

- nodi rhaglen gyfalaf y Cyngor ar gyfer cyfnod 1 Ebrill 2019 i 30 Mehefin 2019;
- cytuno i gyflwyno'r Rhaglen Gyfalaf ddiwygiedig i'r Cyngor i'w gymeradwyo;
- nodi rhagamcanion Darbodus a Dangosyddion Eraill ar gyfer 2019-20.

## 392. POLISI RHEOLAETH ARIANNOL GRANTIAU

Gofynnodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro gymeradwyaeth y Polisi Rheolaeth Ariannol Grantiau.

Adroddodd bod gan y Cyngor Bolisi Grantiau mewn lle a gymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Mawrth 2016, fodd bynnag, o ganlyniad i newidiadau yn y strwythur cyfundrefnol, y nifer a math o'r grantiau a oedd yn cael eu derbyn a gwasgaru Bwrdd Rheoli'r Rhaglen, mae angen diweddaru'r Polisi. Mae'r polisi wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu argymhelliad gan adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru, yn cynnwys eu hadroddiad Ardystio Grantiau.

Gofynnodd yr Arweinydd, unwaith y bydd y polisi wedi'i roi ar waith, bod yr holl aelodau o staff yn cael eu hatgoffa o'r angen i lynu at y Polisi Rheoli Ariannol Grantiau a bod hyfforddiant i fewnosod y polisi yn cael ei wneud ar gael i staff.

PENDERFYNWYD: Cymeradwyodd y Cabinet y Polisi Rheolaeth Ariannol Grantiau a'r rhestr o lofnodwyr a awdurdodir.

## 393. GOFAL PLANT CYFRWNG CYMRAEG - BETWS A CHWMOGWR

Adroddodd y Pennaeth Addysg a Chymorth Cynnar ar galyniad y broses gwerthuso opsiynau i gyflwyno darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg yn ardaloedd Betws a Chwm Ogwr ac wedi gofyn am ganiatâd i fynd ymlaen â'r opsiynau i gyflwyno darpariaeth gofal plant, fel yr argymhellwyd gan y Bwrdd Rhaglen Strategol Moderneiddio Ysgol.

Bu i'r Pennaeth Addysg a Chymorth Cynnar roi gwybod i'r Cabinet bod yr awdurdod wedi sicrhau gwerth £2.6M o grant cyfalaf Llywodraeth Cymru i ddatblygu darpariaeth

gofal plant cyfrwng Cymraeg mewn pedair ardal ddaearyddol y fwrdeistref sirol. Mae'r prosiectau Bettws a Chwm Ogwr i'w cwblhau yn gyntaf, er mwyn cefnogi derbyniad disgyblion i Ysgol Gynradd Gymraeg (YGG) Calon y Cymoedd sydd wedi'i hadleoli.

Adroddodd y Pennaeth Addysg a Chymorth Cynnar bod grŵp llywio cyfrwng Cymraeg, yn cynnwys swyddogion a phrif randdeiliaid, wedi'i sefydlu i helpu i fod yn sail i bob prosiect, datblygu cynlluniau busnes a chynorthwyo cynaliadwyedd y dyfodol y ddarpariaeth ar ôl y gwaith adeiladu. Ffurfiwyd tîm prosiect i gynnal ymweliadau â'r safle a sgorio bob safle a adnabuwyd ar gyfer darparu. Bu i'r Pennaeth Addysg a Chymorth Cynnar gyflwyno canlyniadau gwerthusiad bob un o'r safle a oedd wedi'u hadnabod ym Metws a Chwm Ogwr.

Dywedodd Aelod y Cabinet dros Lesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol bod y safle a adnabuwyd yng Nghwm Ogwr, sef y safle sydd gyferbyn â Chlwb Bechgyn a Merched Nantymoel wedi'i leoli ar frig y dyffryn a byddai rhaid i rieni deithio i gyfeiriad sydd i'r gwrthwyneb â'r llifoedd traffig naturiol i fynd â'u plant i ddarpariaeth gofal plant ac yna teithio'n ôl i'r cwm i weithio. Cynigiodd Aelod y Cabinet dros Lesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol welliant yr eilwyd yn briodol a oedd yn nodi na ddylid parau â'r safle gyferbyn â Chlwb Bechgyn a Merched Nantymoel a bod y safle yn Stâd Ddiwydiannol Isfryn - sydd newydd ei adeiladu - yn cael ei ddatblygu i ddarparu gofal plant newydd gan fod y safle ar hyd llifoedd traffig naturiol yng Nghwm Ogwr.

<u>PENDERFYNWYD:</u> Y Cabinet:

(1) ystyried canlyniadau arfarniadau opsiwn y ddau safle;

(2) penderfynol o barhau â'r ardal Betws, wedi adolygu opsiwn 6, fel yr argymhelliwyd gan y Bwrdd a datblygu'r ddarpariaeth gofal plant newydd ar safle presennol adeilad Clwb Bechgyn a Merched Betws (fel y manylir ym mharagraff 4.18 yr adroddiad;

(3) penderfynol o beidio â pharhau â'r argymhelliad gan y Bwrdd i ddatblygu Opsiwn 1, y safle gyferbyn â Chlwb Bechgyn a Merched Nantymoel yn ardal Cwm Ogwr ac yn hytrach datblygu Opsiwn 2 sef Stâd Ddiwydiannol Isfryn - sydd newydd ei adeiladu, i ddarparu gofal plant newydd gan fod y safle ar hyd llifoedd traffig naturiol yng Nghwm Ogwr.

394. <u>EFFEITHLONRWYDD TEITHIO I DDYSGWR</u>

Gofynnodd y Pennaeth Addysg a Chymorth Cynnar gymeradwyaeth i ddechrau ymgynghoriad cyhoeddus ar newidiadau i Bolisi Trafnidiaeth o Adref i'r Ysgol / Coleg yr awdurdod.

Bu i'r Pennaeth Addysg a Chymorth Cynnar roi gwybod i'r Cabinet bod gan yr awdurdod ddyletswydd statudol dan y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 i wneud trefniadau trafnidiaeth addas i hwyluso presenoldeb plant bob dydd yn y llefydd perthnasol lle maent yn cael eu haddysg neu hyfforddiant. Caiff hyn ei gyflawni'n bennaf drwy gontractio gwasanaethau trafnidiaeth o'r sector preifat. Caiff cymhwysedd disgyblion i dderbyn trafnidiaeth o adref i'r ysgol am ddim ei reoli gan Bolisi o Adref i'r Ysgol/coleg yr awdurdod lleol.

Bu i'r Pennaeth Addysg a Chymorth Cynnar adrodd ar arbedion a thwf cyllideb y MTFS a wnaed yn erbyn y gyllideb trafnidiaeth dysgwyr ers 2014-15. Er bod arbedion sylweddol wedi'u gwneud, mae newidiadau yn nemograffeg a galw wedi golygu bod twf cyllideb ychwanegol wedi bod yn angenrheidiol i gefnogi'r gyllideb trafnidiaeth dysgwyr. Cynigiwyd y dylid ymgymryd ag ymgynghoriad 12 wythnos llawn am ragor o welliannau i

Bolisi Trafnidiaeth o Adref i'r Ysgol/Coleg yr awdurdod lleol i ddechrau fis Medi 2019. Bu iddi nodi'r cyd-destun deddfwriaethol a fyddai'n cael ei ystyried yn ystod yr ymgynghoriad.

Adroddodd y Pennaeth Addysg a Chymorth Cynnar bod y trefniadau dewisol yn y polisi cyfredol yn anghynaliadwy ac er bod gostyngiad sylweddol yn y gyllideb o £1.7794M wedi'i wneud i'r gyllideb trafnidiaeth dysgwyr i gefnogi'r MTFS, nid oedd y newid yn y polisi a gymeradwywyd gan y Cabinet yn 2015 wedi cyflawni digon o arbedion i gefnogi'r gostyngiad mawr hwn yn y gyllideb. Argymhelliwyd y dylai'r Cabinet ystyried ailymweld ag elfennau dewisol y Polisi Trafnidiaeth o Adref i'r Ysgol / Coleg i gefnogi'r tros wariant rhagweledig o £761,000 fel yn Chwarter 1 2019-20 ac i helpu i fynd i'r afael â'r pwysau parhaus yn erbyn y gyllideb trafnidiaeth dysgwyr o gymhwysedd statudol cynyddol. Prif nod yr ymgynghoriad fydd ymgysylltu â'r cyhoedd, yn bennaf, disgyblion a'u teuluoedd agos i ganfod eu safbwyntiau ar y newidiadau arfaethedig. Adnabu'r elfennau dewisol a'r arbedion posibl a oedd yn cael eu cyflwyno ar gyfer teithio myfyrwyr.

Dywedodd Aelod y Cabinet dros Addysg ac Adfywiad eu bod yn gofyn caniatâd i ymgynghori ar y cynigion a dynnir sylw atynt yn yr adroddiad ac roedd yn gobeithio y byddai Llywodraeth Cymru yn cyllido trafnidiaeth ôl 16 oed.

PENDERFYNWYD: Cymeradwyodd y Cabinet ymgynghoriad 12 wythnos ar y cynigion canlynol:

- cael gwared â hebryngwyr o bob tacsi a bws mini (ac eithrio'r rheiny sy'n cludo disgyblion ag anghenion addysgol arbennig) sydd â llai nag 8 o deithwyr.
- tynnu trafnidiaeth yn ôl ar gyfer holl ddysgwyr sy'n elwa o lwybrau (diogel) sydd wedi eu nodi ac sydd ar gael yn unol â phellteroedd statudol o 2 filltir ar gyfer disgyblion oed cynradd a 3 milltir ar gyfer disgyblion oed uwchradd.
- cael gwared â diogelwch disgyblion 'brawd/chwaer' ac 'yn derbyn';
- cael gwared â Pholisi Trafnidiaeth rhwng y Cartref a'r Ysgol/Coleg yr awdurdod lleol o enghreifftiau penodol o amgylchiadau arbennig lle bydd yr awdurdod lleol yn cynnig trafnidiaeth disgresiwn.
- cael gwared â'r holl drafnidiaeth ar gyfer disgyblion meithrin; a
- chael gwared â holl drafnidiaeth ôl-16.

395. NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I WASANAETHAU LLYFRGELL YM MHEN-Y-BONT AR OGWR

Adroddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ar gynigion i ail-leoli'r gwasanaeth Llyfrgell o safle Tŷ'r Ardd a hefyd yr angen gynllunio am y tymor hir o ran gwasanaethau Llyfrgell symudol a datblygu dull newydd i gynnal darpariaeth gwasanaethau Llyfrgell gan gynnwys opsiynau cyd-leoliad fel y cydnabuwyd o fewn strategaeth ariannol y tymor canolig.

Hysbysodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant y Cabinet bod MTFS yn cydnabod arbedion pellach o gyfleusterau llyfrgell a diwylliannol ac yn berthnasol i wasanaethau, gan gynnwys adolygu’r nifer o gyfleusterau (llyfrgelloedd, canolfannau cymunedol) a hefyd lleihau oriau agor gwasanaethau. Dywedodd fod rhai o'r £150,000 o arbedion a nodwyd rhwng 2019–2021 wedi eu canfod, ond bod diffyg o £70,000 a oedd angen ei nodi.

Adroddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant bod angen gwneud nifer o benderfyniadau yn fuan er mwyn cynnal dull effeithiol ac effeithlon tuag at weithredu gwasanaethau Llyfrgell. Roedd angen ail-leoli'r ganolfan Hanes Lleol

a Theuluol dros dro oherwydd y bwriad i gau adeilad Tŷ'r Ardd i gyhoeddi derbynneb cyfalaf. Dywedodd bod y cyfleuster yn denu 6,000 o ymwelwyr y flwyddyn a bod 3,500 o sesiynau TGCh wedi eu trefnu ar y safle yn 2018. Roedd trafodaethau wedi eu cynnal gydag Awen er mwyn nodi lleoliad addas a chost effeithiol, a nodwyd "Llyfrgell y Llyfni" yng Nghanolfan Chwaraeon Maesteg. Roedd gan y cyfleuster ddigon o le i gefnogi gwasanaeth dros do ac ystafell TGCh hefyd ar gael. Yn dilyn ailddatblygiad neuadd y Dref Maesteg, cynlluniwyd i ail-leoli'r gwasanaeth hanes lleol a theuluol o fewn y cyfleusterau newydd er mwyn cefnogi cynaliadwyedd hir dymor y gwasanaethau llyfrgell a diwylliannol.

Adroddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant hefyd ar gynigion i gefnogi cynaliadwyedd hir dymor o wasanaethau llyfrgell symudol. Nododd bod Awen yn gweithredu dau ddull o ddarparu gwasanaeth Llyfrgell symudol yn bresennol, sef y cerbyd Llyfrgell symudol mawr sy'n ymgymryd â 10 llwybr, a'n cefnogi 361 o unigolion pob 3 wythnos, a'r gwasanaeth 'Booklink', sy'n cefnogi 282 o gwsmeriaid sydd yn gaeth i'w cartrefi gydag ymweliadau pob 5 wythnos. Mae'r cerbyd llyfgrell symudol mwyaf yn 11 mlwydd oed erbyn hyn, yn profi methiannau'n rheolaidd a byddai cerbyd newydd yn costio tua £120,000. Mae Awen wedi nodi gorgyffwrdd o ddefnyddwyr a chyfleoedd ar gyfer dull mwy hyblyg ac arloesol ac yn cynnig cynnydd yn nifer ac ystod y gwasanaethau llyfrgell symudol gyda cherbydau llai. Awen fyddai'n gyfrifol am y gost. Byddai'r cynnig yn golygu sefydlu amserlen safonol o 5 wythnos fel y cynllun Booklink presennol gyda defnyddwyr presennol y Llyfrgell symudol yn cael eu trosglwyddo i'r gwasanaeth newydd.

Adroddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant hefyd bod y MTFS wedi nodi'r angen i ostwng £150,000 o'r ffi rheoli sy'n ddaliadwy i Awen rhwng 2019 a 2021, yn seiliedig ar adolygu nifer y llyfrgelloedd a hefyd lleihau oriau agor y gwasanaethau. Tynnodd sylw at enghreifftiau lle mae gwasanaethau cyd-leoliad wedi bod yn gost effeithiol. Roedd gwaith yn digwydd ar gyfer cyd-leoli cyfleusterau Llyfrgell o fewn ailddatblygiad Neuadd y Dref Maesteg ac astudiaeth dichonoldeb cyfleoedd ym Mhorthcawl ar gyfer cyd-leoli.

Hysbysodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant y Cabinet bod y bartneriaeth gydag Awen wedi bodloni'r targedau arbedion o £625,000 o fewn tair blynedd gyntaf y contract, sy'n cyfateb i 17% o'r cyllid gwreiddiol. Yn ychwanegol, drwy integreiddio rheoli cyfleusterau Wood B / B Leaf i'r contract, daeth £120,000 o arbedion o'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

Pwysleisiodd yr Aelod Cabinet dros Lesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol pwysigrwydd llyfrgelloedd i lesiant pobl ac roedd yn falch o weld buddsoddiad parhaol i gyfleusterau llyfrgell, pan fo nifer o awdurdodau lleol wedi cau eu cyfleusterau. Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar bod gan y Fwrdeistref Sirol wasanaeth llyfrgell ymfalchïo ynddo.

Holodd yr Aelod Cabinet dros Gymunedau am nifer y cerbydau llai y cynigodd Awen eu prynu. Mae'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant am roi gwybod i'r Cabinet nifer y cerbydau llai y bydd yn cael eu prynu ar gyfer y gwasanaeth Llyfrgell symudol.

<u>PENDERFYNWYD:</u> Y Cabinet:

- Cymeradwyo BCBC ac Awen yn ail-leoli'r gwasanaeth Hanes Lleol a Theuluol i'r Llyfni, Maesteg, yn seiliedig ar yr angen i adael adeilad Tŷ'r Ardd ar ôl ei gau.
- Cymeradwyo'r ail-leoliad term canolig y gwasanaeth Hanes Lleol a Theuluol i Neuadd y Dref Maesteg fel lleoliad mwy addas a chynaliadwy wedi cwblhau'r gwaith buddsoddi cyfalaf sylweddol.

- Cymeradwyo BCBC ac Awen i barhau â'r cynnig o wasanaeth Llyfrgell symudol yn seiliedig ar wella hyblygrwydd a chymorth a all ei lwyddo a nodi bod y cynnig yn cynnal gwasanaethau llyfrgell symudol. Mae cynnig y gwasanaeth symudol hefyd yn dileu unrhyw angen posibl am fuddsoddiad cyfalaf gan y Cyngor. Bydd y gwasanaeth yn amodol ar adolygiad o fewn cyfnod o 12 mis;
- Cymeradwyo BCBC ac Awen i adolygu'r costau dangosol ac arbedion posibl o gyd-leoliad Llyfrgell ychwanegol neu wasanaeth perthnasol arall i bartneriaeth Awen ond hefyd i nodi oblygiadau posibl o leihau cyfleusterau ac oriau agor. Bydd unrhyw gynnig yn amodol ar adroddiad pellach.

396. BLAENRAGLEN WAITH

Gofynnodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoli am gymeradwyo eitemau i'w cynnwys ar y Blaenraglen Waith (FWP) ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Hydref a 31 Ionawr 2020.

PENDERFYNWYD: (1) Bod y Cabinet yn cymeradwyo Blaenraglen Waith y Cabinet ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Hydref 2019 a 31 Ionawr 2020, fel y dangosir yn Atodiad 1 yr adroddiad, a

(2) Nodwyd Gwaith Blaenraglennu'r Cyngor a Chraffu fel y dangosir yn Atodiad 2 a 3 yr adroddiad, yn ôl eu trefn.

397. ADRODDIADAU GWYBODAETH I'W NODI

Adroddodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoli ar yr adroddiad gwybodaeth canlynol sydd wedi ei chyhoeddi ers cyfarfod diwethaf y Cabinet.

Rheoli Trysorlys - Chwarter 1 2019-20

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn cydnabod cyhoeddiad y ddogfen a restrir yn yr adroddiad.

398. EITEMAU BRYS

Nid oedd yna unrhyw eitemau brys.

Daeth y cyfarfod i ben am 17:10